



Grant Cymorth Tai Wrecsam

Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021-22



Cynnwys

1. Rhagarweiniad	3
2. Blaenoriaethau Cyflawni dan y Grant Cymorth Tai	5
3. Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	6
4. Asesu Anghenion	15
Atodiad 1: Aseidiadau Effaith	27
Atodiad 2: Cynllun Comisiynu Lleol	29
Atodiad 3: Dyletswyddau Statudol ym maes Digartrefedd	34

1. Rhagarweiniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam yn darparu, ac yn galluogi darpariaeth, gwasanaethau i bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â'r Fwrdeistref Sirol. Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn cynnwys addysg, gwasanaethau cymdeithasol, tai, cynllunio, yr amgylchedd a hamdden.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n ddi-baid i ail-lunio a threfnu gwasanaethau er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi pobl leol a'u galluogi i ffynnu, gan roi blaenoriaeth i'n trigolion mwyaf diamddiffyn.

Y Grant Cymorth Tai

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Grant Cymorth Tai yn 2020, gan gyfuno tri o grantiau oedd yn bodoli eisoes: Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl, y Grant Atal Digartrefedd a Gorfodi Rhentu Doeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n dosrannu'r Grant Cymorth Tai i awdurdodau lleol i gefnogi ymyriadau cynnar, anstatudol sy'n atal pobl rhag mynd yn ddigartref, yn sefydlogi eu sefyllfa o ran tai, neu'n helpu pobl a allai fynd yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw.

Disgwylir i'r Grant Cymorth Tai ategu'r Grant Plant a Chymunedau er mwyn darparu gwasanaethau integredig lle bo hynny'n briodol; gellir ei ddefnyddio hefyd i ategu cymorth i bobl sydd arnynt angen gofal personol neu feddygol ar sail statudol, ond ni ellir ei ddefnyddio i dalu am ofal nac unrhyw wasanaeth statudol arall.

Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai a Chynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai

Yn unol â Chanllawiau Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer y Grant Cymorth Tai yn 2020 mae'n ofynnol i awdurdodau lleol lunio Strategaeth ar gyfer y Rhaglen Cymorth Tai bob pedair blynedd, gan gynnwys gwasanaethau cymorth statudol ac anstatudol ym maes digartrefedd, a llunio Cynllun Cyflawni ar gyfer y Grant Cymorth Tai bob blwyddyn.

Gan fod angen cysoni Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai â'r Strategaethau Digartrefedd sydd eisoes yn bodoli, ac oherwydd y pandemig Covid-19 yn tarfu ar bopeth, cytunodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn Awst 2020 na fyddai'n ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno Strategaeth tan fis Rhagfyr 2021.

Serch hynny, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol greu Cynlluniau Cyflawni blynyddol ar gyfer y Grant Cymorth Tai erbyn mis Rhagfyr 2020.

Sut ydym wedi llunio'r Cynllun hwn?

Wrth lunio'r cynllun hwn rydym wedi:

- Ystyried y blaenoriaethau lleol a rhanbarthol yn Wrecsam ar gyfer y Grant Cymorth Tai yn y flwyddyn i ddod, a sut fyddwn yn gweithredu ar sail y rheiny.
- Ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr a rhanddeiliaid wrth bennu blaenoriaethau strategol a rhai penodol i wasanaethau. Ymgynghori drwy holiaduron a chyfarfodydd rhithiol yn hytrach na chyfweliadau wyneb yn wyneb, oherwydd y cyfyngiadau Covid-19.
- Casglu data a'u dadansoddi fel sail ar gyfer asesiad o anghenion, gan gynnwys data ynghylch effaith Covid-19 a'r ymateb iddo.
- Cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac ystyried sut allai hwnnw ac asesiadau effaith eraill ddylanwadu ar y cynllun cyflawni.
- Cyfeirio at Gynllun Gwario Lleol Wrecsam a'r Cynllun Comisiynu Lleol.
- Ystyried darpariaeth CBSW o wasanaethau Digartrefedd statudol.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd y Tîm Grantiau Cymorth Tai a Datblygu'n cyflwyno'r rhannau canlynol o'r Cynllun Cyflawni i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r drefn o ymgeisio am gyllid drwy'r Grant Cymorth Tai:

- Blaenoriaethau cyflawni dan y Grant Cymorth Tai.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Cynllun gwario lleol.
- Crynodeb o'r dyletswyddau statudol ym maes Digartrefedd.

Byddwn yn rhoi cychwyn ar ddatblygu Strategaeth gyntaf Wrecsam ar gyfer y Rhaglen Cymorth Tai, a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2021.

Byddwn yn dal i sicrhau bod y gwasanaethau hynny a gomisiynir drwy'r Grant Cymorth Tai yn strategol berthnasol, o ansawdd uchel ac yn rhoi gwerth am arian.

2. Blaenoriaethau Cyflawni dan y Grant Cymorth Tai

Blaenoriaeth Cyflawni dan y Grant Cymorth Tai yn 2021/22

Ymateb i'r Pandemig Covid-19 a Pharatoi Cynllun Cam 2

Mae'n debygol y bydd y pandemig yn dal i effeithio arnom am beth amser eto, ac felly ein blaenoriaeth eleni fydd datblygu ac ail-lunio'r prosiectau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai, a hynny ar sail ein llwyddiannau diweddar.

Bydd Gwasanaethau Cynnal yn chwarae rhan hanfodol wrth fynd i'r afael â digartrefedd. Y Gwasanaethau Cynnal a fydd yn sicrhau fod pawb y mae'r Awdurdod Lleol yn eu lleoli mewn llety dros dro yn cael cymorth i symud i lety hirdymor.

Mae'r argymhellion yn ein Cynllun Comisiynu Lleol ar gyfer gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai i gyd wedi'u llunio er mwyn cyfrannu at gyflawni'r un flaenoriaeth hollgynhwysfawr hon.

3. Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Tystiolaeth Ymgynghori

Ymgynghori â Rhanddeiliaid Allweddol a Defnyddwyr Gwasanaethau

Mae ymgynghori'n dal yn flaenoriaeth allweddol ac wedi cyfrannu'n helaeth at y cynllun cyflawni hwn. Y Tîm Grant Cymorth Tai a Datblygu a fu'n cynnal yr ymgynghoriad yn bennaf, mewn partneriaeth â'n Grŵp Cynllunio. Yn ogystal â hynny rydym wedi sefydlu grŵp ymgynghori â darparwyr cymorth, sy'n cwrdd yn rheolaidd i drafod perfformiad ac arferion da ac unrhyw newidiadau ar sail hynny.

Mae'r dadansoddiad hwn yn rhoi braslun o'r ymateb a gafwyd gan ein Rhanddeiliaid a Defnyddwyr ein Gwasanaethau yn y fwrdeistref, yn benodol felly ynghylch y Grant Cymorth Tai a'r Gwasanaethau Datblygu. Mae Canllawiau'r Grant Cymorth Tai a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020 yn egluro sut ddylai awdurdodau lleol ymdrin â'r gofyniad i ymgynghori ac ymgysylltu:

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddatblygu eu Strategaeth ar gyfer y Grant Cymorth Tai a'u Cynllun Cyflawni ar gyfer y Grant Cymorth Tai. Dylent ymgynghori ac ymgysylltu â'r rhanddeiliaid canlynol yn ystod y broses honno. Rhaid i'r gwaith ymgysylltu hwn gael ei wneud yn unol â'r dyletswyddau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Pum Ffordd o Weithio.

- Iechyd
- Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Gwasanaeth Prawf
- Byrddau Partneriaeth Gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau
- Grant Plant a Chymunedau
- Darparwyr
- Landlordiaid
- Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau drwy'r Grant Cymorth Tai
- Gofalwyr a theuluoedd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau drwy'r Grant Cymorth Tai

Wrth ofyn i'n cleientiaid gyfrannu gallwn feithrin dealltwriaeth o elfennau pwysig fel lleoliad daearyddol, demograffeg, nodweddion gwasanaethau, anghenion ein gwasanaethau a'r modd y caiff yr anghenion hynny eu bodloni ar hyn o bryd, neu beidio.

Yn yr adran hon ceir hefyd Ddadansoddiad SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau) i fedru gwneud gwell asesiad o'r hyn a fedr ddylanwadu ar y strategaeth, ymhle mae'r bylchau mewn gwasanaethau, a sut ellid gwella'r drefn o bennu cyllidebau a datblygu gwasanaethau. O ganlyniad i'r cwestiynau a ofynnion i'n rhanddeiliaid a defnyddwyr ein gwasanaethau mae modd dod i nifer o wahanol gasgliadau.

Ar y cyfan ymddengys bod y gwasanaethau'r ydym yn eu darparu ar y cyd â'n partneriaid yn fwy na boddhaol. Yn wir, ceir tystiolaeth fod y ddarpariaeth yn rhagorol mewn nifer o feysydd, fel y nodir isod:

"Mae yno dimau/sefydliadau rhagorol yn cefnogi pobl gydag amryw anawsterau (Ardaloedd dan Anfantais, diweithdra ymysg pobl ifanc ac addysg, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl ac yn y blaen)."

"Dw i'n meddwl bod pethau'n gweithio'n dda gyda'r system atgyfeirio barhaus a rhannu gwybodaeth."

"Dim, dwi'n meddwl fod gan ddarparwr fy ngwasanaeth berthynas waith dda gyda CBSW."

"Ar sail fy mhrofiad hyd yma mae'r bartneriaeth rhwng y timau Grant Cymorth Tai a chynlluniau Clwyd Alyn yn Wrecsam yn gweithio'n dda, rydym yn cael yr holl gymorth angenrheidiol pan mae arnom ei angen."

"Mae fy ngweithiwr cefnogi wedi ffonio a galw heibio'r tŷ unwaith neu ddwy bob wythnos, ac mae hynny wedi bod yn grêt."

"Wyneb yn wyneb a dros y ffôn, sydd wedi bod o fudd mawr."

"Mae fy ngweithiwr cefnogi wedi ffonio a galw heibio'r tŷ unwaith neu ddwy bob wythnos. Mae wedi rhoi pecynnau bwyd imi a phres i dalu biliau. Ni allaf roi digon o ddiolch iddo, mae'r cysylltiad yn cadw fy iechyd meddwl yn sefydlog."

"Mae fy ngweithiwr cefnogi wedi galw heibio'r fflat ac wedi ffonio. Rydw i wedi cael cefnogaeth aruthrol ganddo. Pecynnau bwyd, pres i dalu am drydan. Roeddwn i'n byw mewn pabell cyn imi ddechrau derbyn y gwasanaeth gan y darparwr. Ers imi gael y fflat dwi'n gallu gweld fy mhlant ac maen nhw'n dod yma i aros."

"Roedd y gefnogaeth a ges i yn ystod y cyfnod clo yn dda, heb unrhyw drafferthion, roeddwn i'n hapus i ddefnyddio'r dechnoleg ac roedd y gefnogaeth yn dal yr un fath, fe ges i fy nghefnogi'n dda."

"Dwi wedi bod yn ddiolchgar dros ben am y gefnogaeth a ges i yn ystod y cyfnod clo, roedd rhywun yn siarad efo fi'n aml ac yn datrys unrhyw broblemau'n sydyn."

"Mae dim ond gweld fy ngweithiwr cefnogi'n gwneud gwahaniaeth mawr ar hyn o bryd. Dw i'n cael trafferth efo fy iechyd meddwl ac mae o'n help mawr imi."

"Rydym yn cael llawer o gefnogaeth drwy'r cyfnod cloi gan yr holl weithwyr proffesiynol."

"Cefnogaeth hawdd cael gafael arno."

"Wedi cael cefnogaeth fel arfer – 24 awr y dydd."

"Mae wedi bod yn brilliant, does gen i ddim byd ond pethau da i'w ddweud am y gefnogaeth ges i."

Er gwaethaf yr holl sylwadau cadarnhaol, nid da lle gellir gwell ac ar sail yr ymateb a gafwyd mae'n amlwg fod yno fylchau yn y ddarpariaeth mewn amryw feysydd.

Bydd angen ymchwilio'n fanylach i hynny a'i ystyried yn ofalus wrth adolygu ein model ar gyfer gwasanaethau, darparwyr y gwasanaethau, yr hyn y maent yn ei gynnig ar hyn o bryd, gwerth am arian a ph'un a fyddai gwasanaethau eraill yn medru cynnig yr un peth.


Manylir isod ynghylch y pryderon pennaf a godwyd ynghylch bylchau mewn gwasanaethau:

- Mwy o gymorth gyda chyflogaeth/busnes/addysg yn lleol i helpu gydag adfywio'r dref.
- Prinder fflatiau byw â chymorth ynghanol y dref.
- Prinder llety fforddiadwy a landlordiaid preifat yn gwrthod derbyn budd-daliadau tai.
- Pobl sydd wedi dioddef trais domestig yn methu â gadael eu camdrinwyr oherwydd amseroedd aros hir wrth ymgeisio am dai.
- Mwy o wasanaethau byw â chymorth i bobl ifanc sy'n gadael gofal.
- Mae darpariaeth yn brin i bobl ag anghenion dwys.
- Mwy o wasanaethau i bobl ddigartref ag anawsterau iechyd meddwl sylweddol.
- Nid oes digon o fflatiau allgymorth, fel fflatiau Hurst Newton, i'r cleientiaid hynny sy'n barod i symud i fyw yn rhywle ag un ystafell wely.
- Nid oes gweithwyr ar gael ar gyfer diagnosis deuol. Ceir rhestrau aros hirfaith am wasanaethau iechyd meddwl ac yn aml mae'n waeth os oes angen i'r cleient fod wedi cofrestru â meddyg teulu.
- Mae'n anodd i rywun ifanc gael prawf adnabod heb deulu nac arian. Mae'n anodd hefyd agor cyfrif banc heb brawf adnabod.
- Prin yw'r llety dros dro sydd ar gael er mwyn lleoli teuluoedd â phlant bach mewn lleoedd gwely a brecwast.
- Prin yw'r llety rhent preifat sydd ar gael i bobl sy'n hawlio'r Credyd Cynhwysol.
- Mwy o ddarpariaeth iechyd meddwl – cynlluniau a sefydlir i weithio â phobl ag anawsterau iechyd meddwl hirdymor – yn ddelfrydol, staff ar y safle a fedr ymdopi pan mae rhywun mewn argyfwng iechyd meddwl.
- Pobl sy'n gadael carchar – mwy o lety i'r rheiny a fu'n garcharorion am gyfnodau hwy lle gellir darparu cymorth cyflawn iddynt am hyd at chwe mis, dyweder.
- Pobl sy'n gadael carchar - mae prinder llety addas/diogel i bobl â hanes o droseddu'n rhywiol – gyda staff hyfforddedig sy'n deall y cymhlethdodau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r grŵp yma o gleientiaid.

- Mwy o lety llai o faint wedi'i drefnu'n benodol ar gyfer pobl ag amrywiaeth o anghenion cymhleth ac sydd hefyd yn ddiamddiffyn iawn – yn enwedig pobl awtistig.
- Mwy o lety i bobl sy'n gadael unedau adsefydlu – lle gall cefnogaeth barhau yn yr un modd ag yn yr uned. Mwy o unedau adsefydlu.
- Mwy o unedau bach i Famau a Babanod. Unedau a 3 a 4 o ystafelloedd gwely i bobl iau y mae arnynt angen llawer mwy o gefnogaeth, ac a fyddai'n elwa ar fyw mewn amgylchedd mwy therapiwtig gydag eraill.
- Mwy o ddarpariaeth i bobl ag anawsterau iechyd meddwl nad ydynt angen ond lleoliad tymor byr.

Nodir ffynonellau'r ymatebion gan randdeiliaid isod, ynghyd â pha ardaloedd y maent yn eu cynnwys yn ogystal â'n bwrdeistref ni, a'r gwasanaethau y mae ein defnyddwyr yn eu derbyn.

		Bwrdeistref
A	Gofal Mordaith	3
B	Cais	1
C	Hafan Cymru	1
CH	CBSW Tîm Rheoli Prosiect/Anabledd	1
D	Dim Ond Un	1
DD	BAWSO	2
E	CBSW Dewisiadau Tai	2
F	Nacro	1
FF	Clwyd Alyn	6
G	Cymorth i Deuluoedd	1
NG	Eglwys yng Nghymru	1
H	Gwasanaeth Atal Digartrefedd Ieuenctid	1
I	Arweinydd Strategaeth a Datblygu	1




Meysydd/Gweithgareddau y Cefnogwyd Defnyddwyr Gwasanaethau â Hwyr

Mae'r Graff hwn yn Dangos Meysydd / Gweithgareddau yr oedd Defnyddwyr Gwasanaeth wedi Derbynn Cymorth ynddynt.

Dyma'r categorïau data y gwnaethom ofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth eu mesur yn yr holiaduron adborth a anfonwyd atynt. Gofynnwyd cwestiynau a oeddent yn teimlo eu bod wedi derbyn cefnogaeth gyda'r gwasanaethau a gyrchwyd / a gynigiwyd gan ein darparwyr gwasanaeth.


		Bwrdeistref
A	Teimlo'n Ddiogel	105
B	Diogelwch a Lles eich hun ac eraill	76
C	Rheoli Ilety	124
CH	Rheoli Perthnasoedd	75
D	Teimlo'n rhan o'r gymuned	65
DD	Rheoli Arian	123
E	Cymryd rhan mewn addysg / dysgu	20
F	Yn ymwneud â chyflogaeth / gwaith gwirfoddol	20
FF	Yn gorfforol iach	83
G	Yn iach yn feddyliol	90
NG	Ffordd o fyw iach ac egniol	74



Ymatebion yr Holiadur i Ddefnyddwyr Gwasanaethau – Gwasanaeth Cefnogi/Sefydliad Darparu

Nifer yr ymatebion gan ddefnyddwyr gwasanaeth trwy ein holl ddarparwyr gwasanaethau mewn cyfanswm a gwerth canrannol fel cyfran y cyfanswm.

			atebion	%
	A	CAIS	22	14
	B	Cymdeithas Tai Clwyd Alyn	22	15
	C	Cyswllt Oedran	48	32
	CH	Coridor Glas	6	4
	D	Rhostiroedd	10	7
	DD	Hafan Cymru	4	3
	E	CBSW Gofal Cymdeithasol Plant (Cymorth i Deuluoedd)	9	6
	F	CBSW Gofal Cymdeithasol i Oedolion (Gwasanaeth Anabledd Dysgu)	29	19



Dadansoddiad SWOT:

Drwy wneud dadansoddiad SWOT gallwn asesu ein gwasanaethau yn yr hinsawdd sydd ohoni yn ôl eu cryfderau a'u gwendidau (mewnol) a'r cyfleoedd a'r bygythiadau sydd yno (allanol). Mae'n werth gwneud hyn unwaith y flwyddyn. Wedi cwblhau'r manylion ar gyfer dadansoddi, gellir gweld sut fedr y cryfderau eich helpu i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a lleihau gwendidau.

Cryfderau:

Beth rydym ni'n ei wneud yn dda, sut rydym yn addasu, ein perthnasau â'n rhanddeiliaid, defnyddwyr gwasanaethau a chleientiaid. Yr amrywiaeth o wasanaethau y gallwn ei gynneg. Nifer y cleientiaid y gallwn eu cefnogi a'r llwyddiannau sy'n deillio o'r gwasanaethau maent yn eu derbyn.

Gwendidau:

Bylchau mewn darpariaeth gwasanaethau. Y ffaith nad yw ein cyllideb yn caniatáu inni wneud popeth y dymunwn. Bod rhai cleientiaid yn methu â chael mynediad at wasanaethau. Prinder lle o fewn y ddarpariaeth i fedru cynnig cefnogaeth i bawb sydd ei angen.

Cyfleoedd:

Cydnabod swyddogaeth darparwyr eraill wrth ddatblygu dull mwy holistig.

Bygythiadau:

Trafferthion posib o ganlyniad i'r pandemig. Dim digon o arian i fedru cynnal yr holl wasanaethau y dymunwn eu darparu. Cleientiaid yn gyndyn o ymwneud â gwasanaethau rheng flaen. Colli staff profiadol.

Casgliad

Bydd yr ymatebion a gafwyd, gan ystyried pob un o'r meysydd uchod, yn sail ar gyfer y drefn gomisiynu o hyn ymlaen. Derbyniom gyfanswm o 185 o ymatebion. O blith 55 o randdeiliaid derbyniom 23 o ymatebion, sef 41%.

Rhoddwyd cyfle i randdeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau gyfrannu at y broses gynllunio wrth ddatblygu gwasanaethau presennol a rhai a ddaw yn y dyfodol.

Ffactorau Mewnol

Cryfderau

- Ein staff ymroddedig
- Ein perthnasoedd sefydledig gyda'n partneriaid
- Ein gallu i addasu gwasanaethau'n gyflym

Gwendidau

- Methu â helpu pawb
- Dim digon o ddarpariaeth gwasanaeth
- Cyfyngiadau cyllidebol

Ffactorau Allanol

Cyfleoedd

- Gwella perthnasoedd gyda'n partneriaid allanol
- Tyfu ein cysylltiadau gwasanaeth
- Datblygu gwasanaethau i ddiwallu'r angen

Bygythiadau

- Diffyg ymgysylltiad defnyddwyr gwasanaeth
- Canlyniadau canlyniadol o hirhoedledd y pandemig
- Diffyg cydymffurfio posibl â chontractau darparwyr gwasanaeth

4. Asesu Anghenion

Yn y Bennod hon ceir braslun o'r Asesiad o Anghenion a ddatblygwyd gan Dîm Grantiau Cymorth Tai a Datblygu CBSW. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i gasglu data ar gyfer yr Asesiad o Anghenion a nifer o ffynonellau.

Data o'r Porth Atgyfeirio Cymorth Tai

Mae'r Porth Atgyfeirio Cymorth Tai yn cydlynu'r gwasanaethau cefnogi ym maes Tai i bobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o fynd yn ddigartref. Mae'r Porth yn sicrhau bod y rhai sy'n cyflwyno eu hunain i'r gwasanaeth yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth mwyaf perthnasol, ac yn osgoi dyblygu cymorth i unigolion ar draws gwahanol asiantaethau. Hwn yw'r un pwynt mynediad ar gyfer y rhan helaeth o'r gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Gymorth Tai yn Wrecsam, ac mae'n atgyfeirio cleientiaid at amrywiaeth o asiantaethau a gwasanaethau eraill nad ydynt yn cael eu hariannu drwy'r Grant. Defnyddir yr un ffurflen atgyfeirio ar gyfer pob cleient, lle cofnodir gwybodaeth am anghenion yr unigolyn a'i sefyllfa o ran tai pan wneir yr atgyfeiriad i wasanaeth wedi'i ariannu drwy'r Grant.

Mae'r siart isod yn cynnwys anghenion cefnogi'r rhai hynny a atgyfeiriwyd rhwng 1 Ebrill 2018 a 30 Medi 2020. Dadansoddwyd cyfanswm o 3,068 o gofnodion. O blith y rhai hynny a atgyfeiriwyd, roedd mwy na thraean wedi nodi Digartrefedd/Perygl o Ddigartrefedd fel eu hangen cefnogi pennaf. Dywedodd 1,136 mai Digartrefedd oedd eu hangen cefnogi pennaf, ac roedd 52 o bobl eraill wedi nodi bod yr angen cefnogi hwn yn berthnasol, ac felly roedd 1,188 i gyd wedi nodi Digartrefedd/Perygl o Ddigartrefedd fel angen cefnogi. Nid yw hyn, fodd bynnag, yn esbonio'r rhesymau dros ddigartrefedd neu'r bygythiad o ddigartrefedd, ac felly casglwyd gwybodaeth am unrhyw anghenion cefnogi eraill hefyd (lle'r oedd y rheiny wedi'u nodi).

**Anghenion Cefnogi Pobl a Atgyfeiriwyd at y Porth Cymorth Tai
(01/04/2018 i 30/09/2020)**

Angen Cefnogaeth / Categori	Angen Cymorth Sylfaenol	Angen Cymorth Perthnasol Ond Ddim yn Gynradd	Cyfanswm Adnabod Angen Cymorth
Iechyd meddwl	329	162	491
Person Ifanc	273	127	400
Person Hŷn	329	4	333
Rhiant Sengl Bregus	216	55	271
Teulu Bregus	220	5	225
Materion Cyfiawnder Troseddol	52	152	204
Camddefnyddio Sylweddau	83	80	163
Iechyd Corfforol	80	61	141
Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol	90	40	136
Anabledd Dysgu	50	27	77
Anabledd Corfforol	44	22	66
Camddefnyddio Alcohol	13	16	29
Cyn-filwr	2	14	16
Salwch Cronig	3	9	12
Ffoadur	2	7	9
Nam ar y Synhwyr	5	3	8
Camddefnyddio Cyffuriau	3	1	4
Sipsiwn / Teithiwr	1	1	3
Digartref / Digartref o bosibl	1136	52	1188
Anghysbys / Heb ei Ddatgan	131	-	-

Ar ôl Digartrefedd/Perygl o Ddigartrefedd, y categorïau mwyaf cyffredin ar gyfer anghenion cefnogi oedd Unigolyn Hŷn, lechyd Meddwl ac Unigolyn Ifanc. Yn bennaf, roedd a wnelo'r anghenion am gefnogaeth bellach ag lechyd Meddwl, Materion Cyfiawnder Troseddol ac Unigolyn Ifanc. Y categorïau cefnogaeth mwyaf cyffredin ar y cyfan (ar ôl Digartrefedd/Perygl o Ddigartrefedd) oedd lechyd Meddwl, Unigolyn Ifanc ac Unigolyn Hŷn.

Mae'r siart isod yn dangos sefyllfa llety/tai'r bobl hynny a atgyfeiriwyd at y Porth Cymorth Tai rhwng 1 Ebrill 2018 a 30 Medi 2020.

Sefyllfa Tai'r Bobl a Atgyfeiriwyd at y Porth Cymorth Tai (01/04/2018 i 30/09/2020)

Sefyllfa Llety / Tai	Nifer yr Atgyfeiriadau
Tai Awdurdod Lleol	1209
Cymdeithas Tai	87
Perchennog Deiliad	103
Llety Rhent Preifat	306
Llety Myfyrwyr	2
Llety Clymu	1
Tai Cysgodol	45
Tai Gofal Ychwanegol	2
Gofal Preswyl	7
Dadwenwyno preswyl	2
Ysbyty	9
Ysbyty - lechyd Meddwl	12
Llety â Chefnogaeth	44
Llety NASS	17
Lloches	16
Adeilad Carchardai neu Gymeradwy	156
Gadael Gofal	14
Lleoliad Maeth Rhiant a Phlentyn	3
Ffrindiau / Teulu	455
Dim Ymosodiad Sefydlog	312
Cysgu Garw	12
Llety Digartrefedd Dros Dro	172
Anhysbys / Heb ei Gofnodi	82

Roedd bron i 40% o'r bobl a atgyfeiriwyd yn byw yn Nhau'r Awdurdod Lleol, a'r sefyllfa fwyaf cyffredin wedi hynny oedd byw gyda ffrindiau neu deulu, bod heb gartref sefydlog neu fyw mewn llety rhent preifat.

Adrodd ynghylch Canlyniadau Cefnogi Pobl

Mae'n ofynnol i ddarparwyr Cefnogi Pobl gyflwyno ffurflen canlyniadau ar gyfer pob cleient ar ddechrau'r gefnogaeth, bob chwe mis a/neu pan fydd person yn gadael gwasanaeth. Pan ddechreuir darparu cymorth, gofynnir i'r unigolyn sy'n derbyn y gwasanaeth pa categorïau sy'n berthnasol i'w hanghenion hwy am gefnogaeth. Gofynnir i'r unigolyn hefyd pa rai o'r meysydd hynny yw'r prif angen / yr angen arweiniol, yr angen eilaidd a'r trydydd angen. Mae'r siart isod yn dangos y categorïau cefnogaeth sy'n berthnasol i bobl ar ddechrau eu cefnogaeth ar gyfer ffurflenni canlyniadau a gwblhawyd o fis Ionawr 2018 hyd at fis Mehefin 2020.

Anghenion Cefnogi ar Ddechrau'r Cymorth (Gwasanaethau a Ddechreuodd rhwng Ionawr 2018 a Mehefin 2020)

Categori Cymorth Cleientiaid	Angen Cymorth Arweiniol	2il neu 3ydd Angen Cymorth Perthnasol	Angen Cymorth
Larymau	63	5	128
Salwch Cronig	8	20	25
Troseddu	24	56	114
Anhwylderau Datblygiadol	7	28	42
Teuluoedd	60	37	95
Generig	106	105	229
Anableddau Dysgu	51	40	98
Cam-drin Domestig - Dynion	2	4	8
Iechyd meddwl	228	299	570
Dros 55 oed	247	227	463
Anabledd Corfforol / Synhwyraidd	177	109	306
Ffoadur	2	4	5
Teuluoedd Rhiant Sengl	159	73	237
Sengl 25-54	183	29	222
Materion Alcohol	58	33	119
Materion Cyffuriau	64	95	208
Cam-drin Domestig - Merched	83	27	123
Ymadawyr Gofal	3	21	26
Pobl ifanc	274	23	300

Y categorïau mwyaf cyffredin ar ddechrau'r ddarpariaeth oedd: pobl ifanc ag anghenion cefnogi (16-24), pobl dros 55 ag anghenion cefnogi (heb gynnwys gwasanaethau larwm), ac anawsterau iechyd meddwl. Wrth ystyried yr holl anghenion perthnasol yr un mwyaf amlwg oedd iechyd meddwl, gyda bron i draean o bobl yn nodi bod hyn yn berthnasol i'w hanghenion cefnogi, gyda phobl dros 55 ag anghenion cefnogi (heb gynnwys gwasanaethau larwm), anableddau corfforol a/neu synhwyraidd, a phobl ifanc gydag anghenion cefnogi yn dilyn hynny.

Rhwng mis Ionawr a Mehefin 2020, nodwyd ar y ffurflenni Canlyniadau bod y gefnogaeth wedi dod i ben i 275 o bobl. Gyda 209 o'r rheiny, neu oddeutu tri chwarter, daeth y gefnogaeth i ben yn unol â'r hyn a gynlluniwyd, ond nid oedd wedi'i gynllunio mewn 66 o achosion, neu oddeutu chwarter.

Mae'r ffurflenni Canlyniadau hefyd yn nodi'r rheswm dros ddod â chefnogaeth i ben, ac mae'r rhesymau dros ddod â chefnogaeth i ben heb gynllunio yn y 66 o achosion hynny fel a ganlyn.

Rhesymau dros Gymorth yn Diweddu (Heb ei Gynllunio) Ionawr i Fehefin 2020

Rheswm dros y gefnogaeth sy'n dod i ben	Nifer
Cleient wedi marw	33
Wedi ymuno ag Uned Iechyd Meddwl	1
Sefydliad carchar / troseddwyd ifanc	2
Wedi symud i mewn i Gartref Gofal	1
Wedi symud allan o'r ardal	3
Peidio ag ymgysylltu â chefnogaeth	13
Nid oedd defnyddiwr y gwasanaeth eisiau cefnogaeth	5
Arall	8

Roedd bron i hanner o'r achosion o ganlyniad i farwolaeth y cleient, a gellid dehongli fod y gwasanaeth wedi dod i ben ar sail cynllun neu heb ei gynllunio, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau.

Daeth cefnogaeth nifer helaeth o bobl i ben oherwydd diffyg ymwneud â'r gwasanaeth (13 o bobl) neu beidio â bod eisiau cefnogaeth (5 o bobl).

Ffurflenni Monitro Chwarterol y Grant Cymorth Tai

Mae darparwyr gwasanaethau drwy'r Grant Cymorth Tai yn cyflwyno ffurflenni bob tri mis i'r Tîm Grantiau Cymorth Tai a Datblygu. Cedwir golwr ar nifer y defnyddwyr gwasanaethau a gaiff eu hatal rhag symud ymlaen, ac mae darparwyr yn nodi'r nifer ar ddiwedd bob chwarter sy'n barod i symud yn eu blaen ond yn methu â gwneud hynny oherwydd prinder llety addas.

Pobl a Rwystrowyd rhag Symud Ymlaen

Chwarter	Nifer y Symudiadau Ataliedig ar ddiwedd y Chwarter
C1 2016/17	12
C2 2016/17	12
C3 2016/17	26
C4 2016/17	28

C1 2017/18	9
C2 2017/18	21
C3 2017/18	23
C4 2017/18	29

C1 2018/19	28
C2 2018/19	19
C3 2018/19	24
C4 2018/19	32

C1 2019/20	30
C2 2019/20	26
C3 2019/20	27
C4 2019/20	38

Er bod y niferoedd yn amrywio, ar gyfartaledd mae cynnydd yn nifer y bobl a gaiff eu hatal rhag symud ymlaen fel y gwelir yn ôl y dueddlin (y llinell smotiog ar y siart uchod) sy'n dangos i ba gyfeiriad y mae'r niferoedd yn mynd yn gyffredinol.

Ymgynghori â Darparwyr a Phobl sy'n Derbynn Gwasanaethau a Ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai

Roedd y Tîm Grantiau Cymorth Tai a Datblygu'n bwriadu ymgynghori â rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau mewn amrywiaeth o ffyrdd er mwyn cael darlun mor gyflawn â phosib o'u safbwyntiau. Oherwydd yr amgylchiadau ni fu modd cynnal y gweithgareddau ymgysylltu a fwriadwyd. Yn lle hynny, dosbarthwyd dau holiadur, y naill i rhanddeiliaid a'r llall i bobl sy'n derbyn gwasanaethau wedi'u hariannu drwy'r Grant.

Gofynnwyd i bobl sy'n derbyn gwasanaethau wedi'u hariannu drwy'r Grant:

- Ym mha ardal o'r Fwrdeistref yr oeddent yn byw, yn fras
- Pa fath o wasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn
- Ym mha ddull y darparwyd y cymorth hwnnw a beth oedd eu profiadau yn ystod y cyfyngiadau Covid-19
- Pa fath o gymorth oedd orau ganddynt yn ystod y cyfyngiadau Covid-19, a'u barn ynglŷn â dod â'r cyfyngiadau hynny i ben
- P'un a oedd hi'n hwylus iddynt gael cefnogaeth pan oedd arnynt ei angen
- Pa weithgareddau/meysydd y cawsant gefnogaeth â hwy, ac a oedd unrhyw feysydd lle'r oedd arnynt angen cefnogaeth ond bod y darparwr yn methu â'i gynnig.
- A ellid gwella unrhyw beth am y gefnogaeth a gawsant.

Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid am eu barn ynghylch:

- Y bylchau presennol mewn cymorth tai a'r ddarpariaeth i bobl ddi-gartref, yn Wrecsam a ledled gogledd Cymru
- Y blaenoriaethau ar gyfer darparu cymorth tai, yn Wrecsam a ledled gogledd Cymru
- Sut ellid gwella'r bartneriaeth waith rhwng timau'r Grant Cymorth Tai a'r rhanddeiliaid

Derbyniwyd cyfanswm o 185 o holiaduron wedi'u cwblhau. Cafwyd 162 o ymatebion gan bobl oedd yn derbyn cefnogaeth wedi'i ariannu drwy'r Grant Cymorth Tai ac yn byw yn eu cartrefi eu hunain neu mewn llety â chymorth mewn gwahanol rannau o Fwrdeistref Sirol Wrecsam. Cafwyd 23 o ymatebion gan rhanddeiliaid. Cafwyd ymatebion gan amrywiaeth o grwpiau cleient, gwasanaethau cynnal a sefydliadau rhanddeiliaid.

Ymatebion gan Bobl sy'n Derbynn Gwasanaethau a Ariennir drwy'r Grant

O ran bylchau mewn gwasanaethau, daeth rhai themâu cyffredin i'r amlwg yn ymatebion defnyddwyr gwasanaethau. Wrth reswm, roedd a wnelo'r rhan helaeth o'r bylchau a'r gwelliannau a nodwyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau â newidiadau yn y ffordd y darparwyd cefnogaeth yn ystod y cyfyngiadau Covid-19. Dyma rai o'r prif themâu:

- Rhagweld dychwelyd at gefnogaeth wyneb yn wyneb ac ymweliadau â'r cartref, a rhai'n cwrdd â'u gweithwyr cefnogi wyneb yn wyneb am y tro cyntaf. Roedd rhai'n ansicr ynglŷn â siarad dros y ffôn, neu'n pryderu am hynny. Roedd rhai'n teimlo'n unig neu'n bell i ffwrdd oherwydd rhoi'r gorau i ymweld â chartrefi a rhoi cefnogaeth wyneb yn wyneb yn ystod y cyfyngiadau Covid-19 (38 o ymatebwyr).
- Dywedodd 15 o ymatebwyr y cawsant drafferthion neu bryderon ynghylch defnyddio technoleg fel ffordd arall o ddarparu cefnogaeth wyneb yn wyneb, gan sôn am ddiffyg gwybodaeth, diffyg dyfeisiau addas neu fod ag anabledd sy'n peri anawsterau wrth ddefnyddio technoleg. Dywedodd rhai na ellid bodloni rhai anghenion cefnogi yn iawn drwy dechnoleg.
- Dywedodd 6 o ymatebwyr bod eu mynediad at sesiynau cefnogaeth wedi lleihau ers y cyfyngiadau Covid-19, a bod y sesiynau hynny'n fyrrach ac yn digwydd yn llai aml.
- Dywedodd 3 o ymatebwyr y cawsant drafferthion neu oedi gyda chefnogaeth, neu bod arnynt angen cymorth i gael mynediad at wasanaethau neu gefnogaeth fel cwnsela mewn profedigaeth, lleihau niwed, gwasanaethau iechyd meddwl a chefnogaeth gyda chyfleoedd gwaith/addysg/gwirfoddoli.
- Mynegodd 5 o'r ymatebwyr bryderon am fod eu cyfnod o gymorth wedi'i gyfyngu i ddwy flynedd.
- Pryderon wrth ragweld yr angen i sicrhau llety addas i symud ymlaen iddo (4 o ymatebwyr).

Ymatebion Rhanddeiliaid

Y rhain oedd y prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'r holiadur i randdeiliaid:

- Prinder llety fforddiadwy ac addas i fyw ynndo/symud ymlaen iddo (16 o ymatebwyr) Rhwystrau rhag cael mynediad i lety yn y sector rhentu preifat, gan gynnwys fforddiadwyedd a bod landlordiaid preifat yn gyndyn o dderbyn unrhyw fudd-daliadau tai, a phrinder llety fforddiadwy ac un ystafell wely yn benodol.
- Anghenion sy'n cyd-ddigwydd/dwys/cymhleth (soniodd 10 o ymatebwyr am hyn).
- Iechyd Meddwl (soniodd 8 o ymatebwyr am hyn). Gan gynnwys cael mynediad mwy prydlon at wasanaethau, mwy o lety â chymorth, cefnogaeth i bobl ag anghenion iechyd meddwl llai dwys.
- Dull estynedig yn rhoi sylw i'r unigolyn cyfan, a bod y gwasanaeth yn addasu i'r unigolyn yn lle'r unigolyn yn addasu i'r gwasanaeth (8 o ymatebwyr).
- Pobl Ifanc (7 o ymatebion). Gan gynnwys datblygu'r amrywiaeth o lety â chymorth/llety dros dro sy'n addas i bobl sy'n gadael gofal a phobl ifanc ddiamddiffyn (16-21).
- Llety canolradd neu gam i lawr i fod rhywle rhwng llety â chymorth a byw'n annibynnol (5 o ymatebion).
- Camddefnyddio Sylweddau (5 o ymatebion).
- Cam-drin Domestig (3 o ymatebion).
- Gan gynnwys cefnogaeth arbenigol i bobl Ddu, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig.
- Cefnogaeth/cysylltiadau gyda chyfleoedd addysg, gwaith a gwirfoddoli (3 o ymatebion).

Cafwyd nifer o syniadau ac awgrymiadau penodol y byddwn yn ymchwilio ymhellach iddynt wrth lunio Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai Wrecsam.

Data Tai CBSW

Mae'r data ynglŷn â'r rhesymau dros adnewyddu Tai CBSW yn dangos faint o denantiaethau y gellid ystyried eu bod wedi dod i ben yn negyddol neu heb ei gynllunio rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020.

Diweddiadau Tenantiaeth Heb ei Gynllunio / Negyddol WCBC 2019/20

Rheswm dros Diwedd Tenantiaeth Negyddol / Heb ei Gynllunio	Nifer	%
Wedi'i adael	3	5
Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Dadfeddiannu	3	5
Dadfeddiannu torri tenantiaeth arall	11	20
Ôl-ddyledion Rhent Dadfeddiannu	22	39
Allweddi Dychwelwyd Dim Rhybudd	8	14
Wedi'i gymryd i mewn i'r ddalfa	9	16
Cyfanswm Nifer y Negyddol / Heb ei Gynllunio	56	-

Fel y gwelir yn y siart uchod, roedd cyfran helaeth o'r terfyniadau 'negyddol' hyn oherwydd pobl yn mynd ar ei hôl hi gyda'u rhent, ond hefyd roedd a wnelo nifer helaeth â thenantiaid yn cael eu dwyn i'r ddalfa.

Nifer o denantiaethau CBSW â mwyn na £1,000 o ôl-ddyledion rhent ar ddiwedd y mis. Mae'r dueddin yn dangos cynnydd cyson yn nifer y tenantiaethau lle'r oedd ôl-ddyledion rhent yn fwy na £1,000.

Tenantiaethau WCBC gydag Ôl-ddyledion Rhent dros £ 1000

Diwedd y Mis	Nifer y Tenantiaethau ag Ôl-ddyledion Rhent dros £ 1000
Ebrill-18	138
May-18	156
Mehefin-18	195
Gorffennaf-18	239
Awst-18	261
Medi-18	304
Hydref-18	321
Tachwedd-18	332
Rhagfyr-18	343
Ionawr-19	223
Chwefror-19	254
Mawrth-19	213
Ebrill-19	260
May-19	295
Mehefin-19	346
Gorffennaf-19	373
Awst-19	392
Medi-19	335
Hydref-19	331
Tachwedd-19	342
Rhagfyr-19	495
Ionawr-20	312
Chwefror-20	326
Mawrth-20	305
Ebrill-20	355
May-20	503
Mehefin-20	594
Gorffennaf-20	600
Awst-20	523
Medi-20	520
Hydref-20	506

Ystadegau Digartrefedd

Nifer yr aelwydydd sy'n cael eu cartrefu mewn llety dros dro yn ôl math o aelwyd

Wythnos yn Cychwyn	Pobl Sengl	Cyplau	Teuluoedd	Cyfanswm
Wythnos 1 - 23 Maw	55	2	43	100
Wythnos 5 - 27 Ebr	108	6	55	169
Wythnos 7 - 15 Mai	132	6	56	195
Wythnos 9 - 29 Mai	153	6	56	215
Wythnos 11 - 12 Meh	189	6	58	253
Wythnos 13 - 26 Meh	201	8	61	273
Wythnos 15 - 10 Gorf	211	9	63	283
Wythnos 17 - 24 Gorf	219	9	63	291
Wythnos 19 - 7 Awst	233	9	65	307
Wythnos 21 - 21 Awst	244	11	69	324

Mae mwy o aelwydydd yn cael eu gosod mewn llety dros dro, yn enwedig felly yn y categori unigolyn sengl. Roedd 117 o aelwydydd wedi'u gosod mewn llety dros dro ddiwedd Mehefin 2019 o gymharu â 273 ddiwedd Mehefin 2020.

Atodiad 1: Aseidiadau Effaith

Crynodeb o'r Aseidiadau Effaith

Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Bydd Cynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai'n cael effaith fuddiol ar gyflawni swyddogaethau ar ran pob grŵp, gan y bydd modd gwneud y defnydd gorau o gyllid y Grant Cymorth Tai wrth ymateb i'r anghenion am wasanaethau cymorth.

Datblygir y Cynllun gan roi sylw dyledus i Gynllun Cydraddoldeb Strategol CBSW ar gyfer 2020-2024.

Bydd y Cynllun yn hybu cyfle cyfartal i bob grŵp drwy fod yn sail ar gyfer comisiynu gwasanaethau a fydd yn cynorthwyo pobl i gael tai, hyfforddiant a gwaith, cyflawni eu potensial ac ymwneud yn gadarnhaol â'r gymuned.

Bydd y Cynllun yn creu sail ar gyfer cymunedau cryf a chynhwysol drwy hybu ymgysylltu'n gadarnhaol â'r gymuned.

Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Nid yw Cynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai'n dangos unrhyw gysylltiadau uniongyrchol â chynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr a'r rhaglen waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021. Serch hynny, bydd yr holl wasanaethau a gomisiynir drwy'r Grant Cymorth Tai'n gorfod cydymffurfio â Safonau Iaith Gymraeg CBSW, a bydd hynny'n rhan annatod o bob contract gwasanaeth a sefydlir drwy'r grant.

Er na fydd y Cynllun yn cael effaith uniongyrchol ar y Gymraeg, bydd yr holl wasanaethau a gomisiynir drwy'r Grant yn rhwym dan gontract i gydymffurfio â Safonau Iaith Gymraeg CBSW; bydd yn ofynnol iddynt:

- Gofnodi dewis iaith Defnyddiwr y Gwasanaeth
- Ymdrechu i ddarparu pob rhan o'r gwasanaeth yn yr iaith y mae Defnyddiwr y Gwasanaeth yn ei dewis
- Sicrhau fod y wybodaeth, deunydd darllen, ffurflenni a'r Cynllun Cyflawni Gwasanaeth a ddarperir i Ddefnyddwyr Gwasanaethau'n ddwyieithog.
- Sicrhau nad yw gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg yn israddol i'r rhai a ddarperir yn Saesneg.

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Ac eithrio rhai cynlluniau sy'n cynnig cymorth i bobl ifanc 16-17 mlwydd oed, nid yw gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai'n rhoi cymorth uniongyrchol i blant.

Nid ymddengys fod y Siartiau Llif Prosesau yng Nghynllun Hawliau Plant 2014 Llywodraeth Cymru yn dangos bod angen cynnal Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn ffurfiol ar gyfer y Grant Cymorth Tai.

Wrth geisio sicrhau "Cymru lle nad oes neb yn ddigartref, a lle mae gan bawb gartref diogel y gallant ffynnu ynddo... a byw bywyd bodlon, bywiog ac annibynnol," bydd y Grant Cymorth Tai a'r Cynllun Cyflawni ar ei gyfer yn cael effaith fuddiol ar hawliau ac ansawdd bywydau plant sy'n byw ar aelwydydd y mae gwasanaethau a gomisiynir drwy'r Grant yn eu cynorthwyo.

Atodiad 2: Cynllun Comisiynu Lleol

Yn yr adran hon ceir crynodeb o argymhellion CBSW ar gyfer comisiynu gwasanaethau drwy'r Grant ym mlwyddyn ariannol 2021-22, eu had-drefnu a'u dadgomisiynu. Ynghyd â'r Cynllun Gwario Lleol.

Mae'r Cynllun Comisiynu Lleol yn esbonio'r angen am wasanaethau wedi'u hariannu drwy'r Grant Cymorth Tai. Y gwasanaethau hynny sy'n atal pobl rhag mynd yn ddigartref, yn sefydlogi eu sefyllfaoedd o ran tai, neu'n helpu pobl ddigartref a phobl a allai fynd yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw.

Datblygwyd y blaenoriaethau neu'r argymhellion canlynol i'n helpu gyda'n Blaenoriaeth Cyflawni ar gyfer y Grant Cymorth Tai, ac er mwyn dechrau ymchwilio i fylchau posib mewn gwasanaethau a mynd i'r afael â hwy, yn unol â'r hyn a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion.

Iechyd Meddwl

Crynodeb o'r Dystiolaeth

Ar ôl Digartref/Posib o fynd yn Ddigartref, iechyd meddwl oedd y peth mwyaf yr oedd pobl a gyfeiriwyd at y Porth Cymorth Tai angen cymorth ag ef. Roedd gan 16% o'r rhai a atgyfeiriwyd anghenion cymorth oherwydd eu hiechyd meddwl, a dywedodd mwy na 10% mai hynny oedd eu hangen pennaf.

Soniwyd am fylchau mewn darpariaeth a/neu drafferthion cael mynediad at gymorth iechyd meddwl mewn ychydig dros draean o'r ymatebion i'r holiadur i randdeiliaid.

Mae ffurflenni canlyniadau cleientiaid Cefnogi Pobl yn dangos mai'r angen mwyaf cyffredin wrth ddechrau derbyn cymorth oedd iechyd meddwl, ac roedd hynny'n angen cymorth perthnasol i bron i draean o gleientiaid pan ddechreuon nhw dderbyn cymorth

Blaenoriaethau

Canfod ble gallai fod yno fylchau mewn darpariaeth iechyd meddwl ac ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â hwy.

Ymchwilio i arbrofi â gwasanaethau newydd er mwyn canfod beth yw'r angen amdanynt, a rhoi gwahanol ddulliau cymorth ar brawf er mwyn mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth bresennol.

Darparu mwy o unedau o gymorth yn gyffredinol er mwyn medru cefnogi mwy o bobl sy'n byw mewn llety dros dro i sicrhau llety sefydlog a dal eu gafael ynddo.

Crynodeb o'r Dystiolaeth

Mae cynnydd yn nifer yr achosion o denantiaid CBSW yn mynd mwy na £1,000 ar ei hôl hi ar eu rhent, a thybir mai'r un yw'r sefyllfa gyda mathau eraill o ddaliadaeth.

Mae mwy o aelwydydd yn cael eu lleoli mewn llety dros dro i'r digartref.

Disgwylir i'r 'gwaharddiad ar droi allan' ddod i ben gan arwain ar gynnydd yn nifer y bobl sy'n cyflwyno'u hunain yn ddigartref neu nifer yr atgyfeiriadau at y Porth Cymorth Tai.

Yn ôl ymatebion rhanddeiliaid i'r holiadur ymgynghori ymddengys bod prinder cymorth yn gyffredinol, a gwnaed amrywiaeth o awgrymiadau penodol ynglŷn â ble mae'r bylchau yn y ddarpariaeth.

Blaenoriaethau

Wedi'r llwyddiant wrth gyflwyno cynllun newydd i sicrhau cymorth allanol cyffredinol yn ôl yr angen, dal i ail-lunio darpariaeth CBSW o gymorth cyffredinol yn ôl yr angen a'i ddatblygu ymhellach.

Datblygu a chytuno ar becyn ariannu drwy'r Grant Cymorth Tai ar gyfer cymorth i bobl ddigartref mewn llety dros dro.

Ystyried cyflogi mwy o staff yn y Porth Cymorth Tai er mwyn sicrhau bod digon o allu i gyflawni a bod system TG ar waith a fedr ymdopi â chynnydd mewn atgyfeiriadau a hwyluso'r gwaith o gasglu gwybodaeth fwy manwl gywir ynglŷn ag anghenion cymorth pobl o ran tai.

Gweithredu ar awgrymiadau'r rhanddeiliaid ynglŷn â bylchau yn y cyflenwad presennol o gymorth wedi'i ariannu drwy'r Grant Cymorth Tai a gwasanaethau llety â chymorth. Casglu mwy o wybodaeth am anghenion ar sail yr awgrymiadau ynglŷn â'r gwasanaeth. Gallai hyn gynnwys arbrofi â phrosiectau newydd lle bo hynny'n briodol, ac ymchwilio i gyfleoedd i gynnal prosiectau rhanbarthol neu is-ranbarthol.

Anghenion sy'n Cyd-ddigwydd a Rhai Cymhleth, a Chymorth am Gyfnodau Hwyl

Crynodeb o'r Dystiolaeth

Roedd 10 o'r 23 o ymatebion i'r holiadur ymgynghori â rhanddeiliaid yn nodi fod bylchau mewn gwasanaethau i bobl ag anghenion sy'n cyd-ddigwydd neu rai cymhleth.

Mynegodd 5 o'r ymatebwyr i'r holiadur ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau bryderon am fod eu cyfnod o gymorth wedi'i gyfyngu i ddwy flynedd.

Tystiolaeth anecdotaidd ynglŷn â phobl yn cyflwyno'u hunain yn ddigartref fwy nag unwaith, neu'n gwneud nifer o geisiadau am dai/cymorth.

Blaenoriaethau

Gwneud dadansoddiad pellach o'r Porth Cymorth Tai a Data ar Ddigartrefedd, gan gynnwys achosion o droi allan a lleoliadau a fethodd mewn llety â chymorth, er mwyn asesu i ba raddau y mae pobl yn cyflwyno'u hunain fwy nag unwaith.

Ystyried dulliau o ddarparu cymorth a llety â chymorth i bobl â diagnosis deuol, anghenion cymhleth a/neu sydd angen cymorth am gyfnod hwyl. Mae hyn yn debygol o fod yn orchwyl hirdymor a fydd yn parhau wrth weithio ar Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai oherwydd cymhlethdodau fel dod o hyd i lety.

Cyfiawnder Troseddol

Crynodeb o'r Dystiolaeth

Roedd llawer o'r achosion o denantiaethau CBSW a 'derfynwyd yn negyddol' wedi digwydd o ganlyniad i fynd â'r tenant i'r ddalfa.

Materion ynghylch Troseddu/Cyfiawnder Troseddol oedd yr ail angen cymorth mwyaf cyffredin ymysg pobl a atgyfeiriwyd at y Porth Cymorth Tai.

Blaenoriaethau

Sefydlu llety newydd â chymorth wedi'i ail-lunio a gwasanaeth cymorth fel y bo'r angen i bobl ag anghenion sydd a wnelont â chamddefnyddio sylweddau, gan gynnwys cyffuriau a/neu alcohol, a darpariaeth yn benodol i bobl sydd troseddu yn ogystal â chamddefnyddio sylweddau.

Gwasanaeth o fewn y tîm Dewisiadau Tai i gynorthwyo pobl sy'n gadael carchar.

Camddefnyddio Sylweddau

Crynodeb o'r Dystiolaeth

Soniodd 22% o'r ymatebwyr i'r holiadur i randdeiliaid ynglŷn â rhyw fath o angen neu ddiffyg mewn perthynas â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

Blaenoriaethau

Sefydlu llety newydd â chymorth wedi'i ail-lunio a gwasanaeth cymorth fel y bo'r angen i bobl ag anghenion sydd a wnelont â chamddefnyddio sylweddau, gan gynnwys cyffuriau a/neu alcohol, a darpariaeth yn benodol i bobl sydd troseddu yn ogystal â chamddefnyddio sylweddau.

Symud Ymlaen o Lety â Chymorth a Llety Dros Dro

Crynodeb o'r Dystiolaeth

Roedd sicrhau llety addas i symud ymlaen yn thema a ddaeth i'w amlwg yn fynych yn ymatebion y rhanddeiliaid a defnyddwyr y gwasanaethau.

Dengys y ffurflenni data chwarterol gan ddarparwyr gwasanaethau dan y Grant Cymorth Tai fod cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu rhwystro rhag symud yn eu blaenau o lety â chymorth.

Blaenoriaethau

Ystyried cyflogi staff ychwanegol yn y Porth Cymorth Tai er mwyn sicrhau'r gallu i gasglu data cywir ac amserol ar anghenion pobl a chadw golwg ar achosion lle caiff pobl eu rhwystro rhag symud yn eu blaenau o lety â chymorth.

Dal i weithio a phartneriaid a darparwyr gwasanaethau er mwyn manteisio i'r eithaf i gyfleoedd i unigolion sy'n derbyn cymorth symud ymlaen, er enghraifft, wrth gefnogi pobl i gael gwaith drwy annog cysylltiadau â gwasanaethau cefnogi fel Cymunedau dros Waith.

Ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu panel symud ymlaen, yn seiliedig ar arferion da mewn awdurdodau lleol eraill yn y Gogledd.

Ystyried cyflogi mwy o staff yn Asiantaeth Gosod Tai Leol CBSW gyda'r nod o gynyddu'r cyflenwad o lety yn y sector rhentu preifat sydd ar gael ac yn fforddiadwy i bobl sy'n gadael llety dros dro a llety â chymorth, a gwella'i ansawdd.

Pobl Ifanc

Crynodeb o'r Dystiolaeth

'Unigolyn Ifanc' oedd un o'r anghenion cefnogi mwyaf cyffredin ymysg pobl a atgyfeiriwyd at y Porth Cymorth Tai.

Mae ffurflenni canlyniadau Cefnogi Pobl yn dangos mai'r categori cymorth mwyaf cyffredin ymysg cleientiaid ar ddechrau'r gefnogaeth oedd Unigolyn Ifanc.

Awgrymodd saith o ymatebwyr i'r holiadur rhanddeiliaid y dylem bwysu a mesur ein darpariaeth ar gyfer pobl ifanc, yn enwedig felly o ran eu parodrwydd i fod yn denantiaid a'r amrywiaeth o lety dros dro a llety â chymorth sy'n addas i bobl sy'n gadael gofal a'r bobl ifanc mwyaf diamddiffyn yn ein plith.

Blaenoriaethau

Gweithredu ar awgrymiadau'r rhanddeiliaid ynglŷn â bylchau yn y cyflenwad presennol o wasanaethau wedi'u hariannu drwy'r Grant Cymorth Tai. Casglu mwy o wybodaeth am anghenion pobl ar sail yr awgrymiadau am wasanaethau, yn enwedig felly gyda phobl sy'n gadael gofal a'r bobl ifanc fwyaf diamddiffyn yn ein plith.

Cam-drin Domestig

Crynodeb o'r Dystiolaeth

Yn ôl yr ymatebion i'r holiadur i rhanddeiliaid ceir bylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau cam-drin domestig ac awgrymwyd nifer o ddiffygion penodol.

Blaenoriaethau

Ymchwilio ymhellach ac ymgynghori â rhanddeiliaid i ganfod unrhyw fylchau posib mewn gwasanaethau.

Ymchwilio i gyfleoedd i gynnal prosiectau rhanbarthol neu is-ranbarthol lle bo hynny'n briodol.

Atodiad 3: Dyletswyddau Statudol ym maes Digartrefedd

Mae'r Awdurdod Lleol wrthi'n adolygu a monitro adnoddau oherwydd y llwyth gwaith a gwasgfeydd ychwanegol o ganlyniad i'r pandemig Covid 19.

Mae mwy o staff wedi'u cyflogi hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol hon er mwyn sicrhau y cyflawnir y ddyletswydd statudol. Ers cael gwared â'r categorïau angen blaenoriaethol bu cynnydd yn nifer y bobl yn cyflwyno'u hunain yn ddigartref a'r angen i gyflawni dyletswyddau o dan adrannau 68 a 73. Mae'n amlwg y bydd angen cynnal yr adnoddau hynny yn y flwyddyn ariannol newydd, ac rydym wrthi'n adolygu ein cyllidebau i ganfod ffyrdd o reoli hyn.

Rydym yn adolygu prosesau a dulliau darparu gwasanaethau er mwyn symleiddio gwasanaethau a'u gwneud yn fwy effeithiol. Mae adolygiadau adran 85 ac asesiadau adran 62 dan adolygiad ar hyn o bryd.

Mae swyddogion Dewisiadau Tai'n canolbwyntio ar feysydd neilltuol lle bo hynny'n addas, gan weithio â charfanau penodol o bobl a magu arbenigedd mewn meysydd neilltuol, a chryfhau'r partneriaethau ag asiantaethau allanol; er enghraifft, mae gennym swyddogion sy'n arbenigo mewn cysgu ar y stryd a ffoaduriaid yn gadael llety'r Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi prynu llety gwely a brecwast â 19 o ystafelloedd gwely a fydd yn cael ei drawsnewid yn ganolfan brysbennu i bobl sy'n ddigartref neu'n cysgu ar y stryd. Mae'r cynllun yn dilyn y cyfarwyddyd cam 2 a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru'n gynharach eleni, a'r nod yw efelychu'r llwyddiant a gafodd yr Awdurdod Lleol gyda'r prosiect Glyndŵr yn yr haf. Byddwn yn rhoi cymorth a chefnogaeth i unigolion digartref fel y gallant symud ymlaen i lety addas a diogel. Bydd yno swyddog Dewisiadau Tai'n gweithio'n barhaol yn y ganolfan ynghyd ag asiantaethau cymorth.

Rhwng 1 Ebrill 2020 ac 1 Rhagfyr 2020 cyflwynodd cyfanswm o 828 o bobl eu hunain yn ddigartref.